# POLISI DIOGELWCH GWRESOGI

Dyddiad Cychwyn: [Awst / 2020]

Dyddiad Adolygu Diwethaf: [Gorffennaf / 2023]

Dyddiad Adolygu Nesaf: [Gorffennaf / 2024]

Perchennog y Polisi: [Asedau ac Isadeiledd / Tîm Cydymffurfio]

Pwynt Cyswllt y Polisi: [Gareth Roberts, Rheolwr Cydymffurfio Asedau, gareth.roberts@adra.co.uk, 01248 677196]

CYNNWYS

1. CWMPAS/PWRPAS

2. MANYLION Y POLISI

3. GWEITHDREFNAU

4. CYFRIFOLDEBAU A THREFNIADAU

5. DIFFINIADAU

6. DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG

7. COFNOD O ADOLYGIADAU I'R BROSES HON

8. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

9. GDPR

10. CWYNION

11. ADOLYGU PENDERFYNIADAU

## 1.0 CWMPAS / PWRPAS

1.1 Sicrhau, cyn belled ag sy'n bosib, bod holl gyfarpar gwresogi (gan gynnwys nwy, LPG, olew a Thanwydd Solet) a ddefnyddir mewn eiddo y mae Adra yn berchen arnynt ac y mae gan Adra gyfrifoldeb landlord amdanynt, mewn cyflwr dioge. Sicrhau nad yw'r meddianwyr, a phobl sy'n ymweld â'r eiddo hyn, mewn perygl yn sgil cyfarpar o'r fath.

1.2 Pennu'r rhwymedigaeth gyfreithiol sydd gan Adra mewn cysylltiad â'r ystod lawn o gyfarpar gwresogi o fewn ein heiddo;

1.3 Pennu rhwymedigaethau Adra i denantiaid o eiddo o'r fath eiddo arall;

1.4 Amlinellu polisi a fydd yn golygu bod modd iddo ateb ei rwymedigaethau o ran diogelwch;

1.5 Sicrhau bod yr holl unigolion sy'n ymwneud â gosod, archwilio a gwasanaethu cyfarpar gwresogi wedi'u hyfforddi'n briodol, yn achrededig ac yn meddu ar yr aelodaeth gyfredol o gorff cofrestru cymeradwy, gan gynnwys Gas Safe Register, OFTEC a HETAS.

1.6 Tynnu sylw at gyfrifoldebau deiliad contract a phrydleswyr.

## 2.0 MANYLION Y POLISI

Prif amcanion y polisi hwn yw:

- Darparu llinellau cyfrifoldeb clir o fewn Adra i reoli diogelwch cyfarpar gwresogi;
- Rhoi ymrwymiad y bydd Adra yn sicrhau bod gan bob eiddo domestig y mae'n berchen arnynt neu eiddo y mae'n eu rheoli, Dystysgrif Gwasanaethau Gwresogi dilys a/neu Dystysgrif Diogelwch Nwy nad yw'n fwy na 12 mis oed o ddyddiad y dystysgrif Diogelwch Nwy neu Wresogi blaenorol.
- Rhoi ymrwymiad y bydd Adra yn darparu rhaglen wasanaethu gynhwysfawr ar bob eiddo drwy raglen dreigl 12-mis;
- Hyrwyddo arfer da pan fo hynny'n rhesymol ymarferol;
- Sicrhau fod gwaith adfer yn cael ei wneud o fewn yr amserlenni a nodir yn y polisi hwn, fel bod cartrefi yn parhau i fod yn ddiogel a bod systemau gwresogi eu cynnal i safon uchel;
- Sicrhau bod cofnodion cywir o ran gosod, gwasanaethu ac atgyweiriadau yn cael eu cadw ar gyfer bob eiddo sydd o dan ein cyfrifoldeb ni fel landlord;
- Sicrhau bod system fonitro yn cael ei gweithredu a'i chynnal;
- Sicrhau cydymffurfio gyda holl ddeddfwriaeth a safonau perthnasol.

**3.0 GWEITHDREFNAU**

**3.1 Cyfarpar sy'n llosgi Nwy**

Mae Adra yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau statudol i'w denantiaid, yn fewnol ac yn allanol, ac yn cydnabod y bydd eitemau penodol o gyfarpar gwresogi yn gyfrifoldeb unigolion/deiliad contract eraill;

**3.2** Bydd Adra yn gwasanaethu bob offer nwy naturiol a boeleri gwres canolog LPG yn flynyddol, o fewn cyfnod o ddeuddeg-mis a chylch deg mis i hwyluso unrhyw broblemau cael mynediad.

**3.3** Bydd Adra yn dilyn Rheoliad 36 o'r "Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998"sy'n pennu cyfrifoldebau Adra fel Landlord o ran nwy naturiol;

**3.4** Nid oes gan y Gymdeithas unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol i gynnal y gwiriadau perthnasol o ran unrhyw gyfarpar nwy y mae gan y deiliad contract hawl i'w tynnu o'r safleoedd perthnasol, fodd bynnag:

a) I sicrhau eglurder ar gyfer y peiriannydd gwasanaethu, bydd Adra yn cynnal yr archwiliad diogelwch Rheol 36 perthnasol o holl gyfarpar gwresogi nwy/dŵr poeth a osodwyd gan Adra neu unrhyw osodiadau preifat a fabwysiadwyd gan Adra ar ôl cynnal archwiliad llawn i sicrhau bod y gosodiadau yn cydymffurfio â rheoliadau cyfredol, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac yn addas at y diben;

b) O ran diogelwch, bydd Adra yn cynnal archwiliad gweledol o boptai nwy y mae'r deiliad contract yn berchen arnynt;

**3.5** Os ydi'r peiriannydd yn ystyried bod unrhyw gyfarpar gan gynnwys y rheiny a osodwyd gan y deiliad contract yn anniogel, bydd y peiriannydd yn ynysu, gwneud y cyfarpar yn ddiogel ac yn cyflwyno rhybudd yn hysbysu'r deiliad contract o'r sefyllfa anniogel. Bydd yr wybodaeth yma yn cael ei gofnodi ar Gofnod Diogelwch Nwy y Landlord.

**3.6** Mae ymrwymiad Adra i hyfforddiant ac yn benodol hyfforddiant cyfreithiol yn unol â'r gofyn gan Gynllun Ardystio Achrededig ar gyfer Gweithredwyr Nwy yn sicrhau bod ein deiliad contract yn cael eu diogelu rhag y peryglon a allai godi yn sgil cyfarpar/gosodiadau nwy diffygiol;

**3.7** Mae Adra yn diogelu ei denantiaid ymhellach rhag cyfarpar nwy/gosodiadau diffygiol drwy roi cyfarwyddyd i bob Staff Cynnal a Chadw Nwy i gydymffurfio â gofynion llawn y rhifyn cyfredol o'r Rheoliadau Diogelwch Nwy a holl safonau a manylebau eraill, a allai fod yn gymwys o dro i dro. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw gontractwr cymeradwy a chymwys a ddefnyddir i gynorthwyo'r gwaith hwn;

**3.8** Bydd Adra hefyd yn gosod Synwyryddion CO mewn unrhyw ystafell ble mae cyfarpar nwy yn cael eu gosod;

**3.9** **Cyfarpar sy'n llosgi olew**
Tra nad oes gofyniad cyfreithiol penodol i landlord gael tystysgrif diogelwch landlord ar gyfer cyfarpar tanwydd solet sydd wedi'i osod mewn eiddo, dylent sicrhau bod cyfarpar tanwydd solet yn cael eu gwasanaethu'n briodol, yn rheolaidd, ac yn cael eu cynnal a chadw a bod y ffliwiau yn gweithredu'n ddiogel;

**3.10** Bydd Adra yn sicrhau bod:

- Cyfarpar ac offer tanwydd solet yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol yn unol â chyfarwyddyd y gwneuthurwr a BS 5410-1:2019 (Rhan 1); Cod Ymarfer ar gyfer tanio tanwydd hylif. Gosodiadau i wresogi gofod ac at ddibenion cyflenwad dŵr poeth ar gyfer eiddo domestig;
- Gwirio tanciau storio olew a phibelli cyflenwi olew o ran cyflwr cyffredinol a thrwsio unrhyw ollyngiadau;
- Bydd technegwyr sydd wedi'u cofrestru ag OFTEC yn gwasanaethu ac yn archwilio gosodiadau tanwydd solet, yn flynyddol, o leiaf;

**3.11** Bydd Adra hefyd yn gosod Synwyryddion CO mewn unrhyw ystafell ble mae cyfarpar olew wedi'u gosod;

**3.12** **Cyfarpar Tanwydd Solet**
Bydd Adra yn sicrhau bod unrhyw gyfarpar tanwydd solet sy'n cael eu gosod yn eu heiddo yn cael eu gwasanaethu, a'u cynnal a chadw'n ddigonol, er nad yw'n ofynnol gan ddeddfwriaeth i wirio diogelwch yn flynyddol, ystyrir ei fod yn ymarfer da i wneud hynny ac yn arfer cyffredin o fewn y sector;

**3.13** Bydd Adra yn gwasanaethu systemau gwresogi tanwydd solet yn llawn ac yn ceisio ategu hyn drwy gynnal ymweliad archwilio bob chwe mis i sicrhau bod y simdde a'r cyfarpar cysylltiedig fel y platiau simdde yn effeithiol ac yn ddiogel, bod y ffliwiau yn gweithio'n ddiogel ac yn cael eu hysgubo yn unol â'r argymhellion. Os nad oes yna fynediad ar ôl ceisio ddwywaith ar gyfer yr archwiliad / glanhau simdde 6 misol a bod yna gwasanaeth blynyddol wedi ei gwblhau ac sydd mewn dyddiad, bydd y gwaith yn ael ei gau a ni fydd yn dilyn y trywydd cyfreithiol i gael mynediad;

**3.14** Pob cydnabyddiaeth y dylai gwaith mewn systemau tanwydd solet a thanau agored gydymffurfio gyda Rhan 'J' a 'P' o'r Rheoliadau Adeiladu a bydd yn sicrhau gwasanaethau contractwyr arbenigol i wneud gwaith o'r fath ble mae angen.

**3.15** Bydd Adra yn gosod Synwyryddion CO yn agos at gyfarpar tanwydd solet yn ein holl eiddo ble mae cyfarpar gwresogi tanwydd solet.

**3.16 Argymhellion/Diffygion Gwasanaeth**

**3.16.1** Gall y Dystysgrif Gwasanaethu wneud argymhellion a fydd yn nodi unrhyw faterion diogelwch neu rannau o'r system nad ydynt yn cydymffurfio â'r safonau cyfredol. Bydd argymhellion o'r fath yn cael eu hadolygu gan unigolyn cymwys a bydd y gwaith adfer angenrheidiol yn cael ei flaenoriaethu yn unol â hynny. Bydd y dull canlynol yn cael ei ddefnyddio i bennu brys y gwaith sydd ei angen:

- **Risg Uchel (eitemau sy'n effeithio ar ddiogelwch yr offer)** - gwaith cywiro, ynysu'r cyfarpar a/neu gyhoeddi Rhybudd; bydd hyn yn digwydd **ar unwaith.** Ni fydd y Peiriannydd Gwresogi yn gadael yr eiddo nes bod y risg wedi'i leihau neu ei dileu a bod y deiliad contract wedi llofnodi'r rhybudd ac yn deall yn llawn bod pryder am ddiogelwch y system;

- Bydd pob diffyg arall sy'n effeithio ar weithrediad yr offer yn cael ei gwblhau yn unol ag amserlenni corfforaethol ac wedi nodi yn 3.17.2

**3.16.2** Y Gwelliannau sy'n cael eu hargymell: Defnyddir i nodi, tra bod diffyg wedi'i nodi, nid yw'r diffyg yn cael ei ystyried fel ffynhonnell perygl uniongyrchol neu berygl posibl, byddai gwella yn cyfrannu at wella diogelwch a gweithrediad y gosodiad gwresogi;

**3.16.3** Rhaid cwblhau unrhyw waith gofynnol ac ni ellir ei wrthod.

**3.17 TRWSIO, CYNNAL A CHADW**

**3.17.**1 Torri Lawr

Dylid rhoi gwybod i Adra am bob achos o dorri lawr cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn ein galluogi i ymateb yn gyflym a chyfyngu unrhyw anhwylustod. Bydd angen mynediad i'r eiddo er mwyn archwilio a gwneud y gwaith. Bydd pob gwaith trwsio yn cael amser a dyddiad targed cyflawni yn ddibynnol os mai cais argyfwng, brys neu arferol ydyw. Ble nad yw'n bosib atgyweirio, bydd ffordd arall o wresogi yn cael ei ddarparu h.y. gwresogyddion panel trydan

**3.17.2** Blaenoriaeth Trwsio

**Ymateb mewn Argyfwng** - Mae gan Adra wasanaeth 24 awr ar gyfer gwaith trwsio mewn argyfwng Gall gwaith mewn argyfwng gynnwys y canlynol:

- Risg o lifogydd difrifol
- Risg i iechyd - blaenoriaethu pobl hŷn, pobl sâl, plant ifanc a babanod
- Risg tân

**Gwaith blaenoriaeth 1 diwrnod** - Bydd Adra yn ymateb mewn 1 diwrnod pan fydd gwres wedi ei golli'n llwyr neu'n rhannol rhwng 1 Tachwedd a 30 Ebrill. Bydd hyn yn cael ei alw yn waith trwsio mewn argyfwng.

**Gwaith blaenoriaeth 4 diwrnod** - Bydd Adra yn ymateb mewn tri diwrnod pan fydd gwres wedi ei golli'n llwyr neu'n rhannol rhwng 1 Mai a 31 Hydref. Bydd hyn yn cael ei alw yn waith brys.

**Gwaith Trwsio Arferol** - Gwaith trwsio a all aros am hyd at fis i gael ei drwsio, caiff ei gategoreiddio fel arferol.

**Gwaith wedi ei Gynllunio** – Gall y gwaith yma aros am hyd at chwech mis i gael ei gwblhau heb effeithio ar berfformiad na diogelwch na’r system.

3.17. 3 Pwy sy'n gyfrifol am beth?

| Math o Waith | Manylion | Adra | Deiliad contract |
|---|---|---|---|
| Boeleri Adra, tanau nwy a thanau agored gan gynnwys simdde | Gwasanaethu | ☑ | |
| Boeleri Adra, tanau nwy a thanau agored gan gynnwys simddeau | Trwsio | ☑ | |
| Boeleri y mae Adra yn berchen arnynt | Ail osod ac addasiadau | | ☑ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Simdde Adra wedi'u cysyllti i gyfarpar y deiliad contractiaid | Gwasanaethu | ☑ | |
| Cyfarpar sy'n eiddo i'r deiliad contractiaid | Gwasanaethu | | ☑ |
| Cyfarpar sy'n eiddo i'r deiliad contractiaid | Gwaith Trwsio | | ☑ |

**3.18 Mynediad**

3.18.1 I gael mynediad i wasanaethu cyfarpar gwresogi yn ein heiddo yn flynyddol, bydd y contractwr ac Adra yn dilyn y broses yn HSp42c, HSp43c a HS44.

3.18.2 Mynediad - Yn unol â'r cytundeb deiliad contracti, rhaid i denantiaid ganiatáu i gyflogwyr neu gontractwyr sy'n gweithredu ar ein rhan gael mynediad ar adegau rhesymol ac yn amodol ar rybudd rhesymol i archwilio, gwasanaethu, a gwneud gwaith trwsio, cynnal a chadw angenrheidiol.

**3.19 Cyfarpar y mae deiliad contract yn berchen arnynt**

**3.19.1** Nid cyfrifoldeb Adra yw cyfarpar y mae deiliad contract yn berchen arnynt, ac felly ni fyddant yn cael eu cynnal, cadw a'u gwasanaethu gan Adra.

**3.19.2** Os ydi cyfarpar nwy y mae deiliad contract yn berchen arnynt wedi cysylltu i ffliwau Adra fel simdde bydd Adra yn sicrhau diogelwch unrhyw ffliwiau cysylltiedig.
O dan Reoliad 36, nid oes gofyn i landlord wirio, na chofnodi, unrhyw ddiffygion gyda chyfarpar sy'n berchen i'r deiliad contract yng Nghofnod Diogelwch Nwy'r Landlord.
Nid oes unrhyw ofyniad i fynd ati i wirio cyfarpar sy'n berchen i'r deiliad contract ac eithrio 'Archwiliad Gweledol' os cafodd y nwy ei ymyrryd a bod y cyfarpar wedi'i ail-danio. Bydd unrhyw ddiffygion a welir yn cael eu trin yn unol â Gweithdrefn Sefyllfaoedd Anniogel y Diwydiant Nwy.

**3.19.3** Os oes unrhyw gyfarpar nwy neu danwydd solet sy'n berchen i'r deiliad contract wedi'u cysylltu gyda ffliwau Adra fel simdde, bydd Adra yn sicrhau diogelwch unrhyw ffliwau cysylltiedig.

**3.19.4** Os oes unrhyw ffliwiau sy'n cysylltu i gyfarpar nwy, olew neu danwydd solet sy'n berchen i'r deiliad contract yn methu'r gwiriadau diogelwch, bydd y cyfarpar yn cael ei ynysu a bydd rhybudd yn cael ei roi yn hysbysu'r deiliad contract i beidio â'i ddefnyddio. Bydd Adra wedyn yn trafod yr opsiynau, â'r deiliad contract, naill ai trwsio'r ffliw neu dynnu gyda datrysiad arall yn cael ei gynnig.

3.19.5 Mae Adra yn gwahardd defnyddio gwresogyddion nwy cludadwy yn llym mewn unrhyw eiddo a bydd yn sicrhau y cymerir camau i dynnu offer o'r fath.

## 4.0 CYFRIFOLDEBAU A THREFNIADAU

### 4.1 Prif Weithredwr

Y Prif Weithredwr fydd yn bennaf gyfrifol am weithredu'r polisi hwn.

### 4.2 Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth gyda'r Polisi. Er mwyn cyflawni hyn, ac yn unol â'r Drefn Dirprwyo, bydd y Bwrdd (neu un o'i bwyllgorau sydd wedi'i henwebu) yn cael eu hysbysu am berfformiad a chydymffurfiad yn erbyn y polisi yn rheolaidd, a gallent herio er mwyn sicrhau bod meysydd gyda risg arwyddocaol yn cael ei gweithredu'n gywir. Bydd unrhyw newidiadau a gyflwynir i'r Polisi yn dilyn adolygiad yn cael ei gyfleu i'r Pwyllgor.

### 4.3 Dirprwy Brif Weithredwr

Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i alluogi ateb amcanion y polisi hwn.

### 4.4 Rheolwr Cydymffurfio, Cyfleusterau a Thir

Bydd y Rheolwr Cydymffurfiaeth, Cyfleusterau a Thir yn gyfrifol am weithredu'r gweithdrefnau cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys y cyfrifoldeb am fonitro, adolygu, datblygu polisi a sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â gosodiadau gwresogi a diogelwch yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae'r cyfrifoldeb am weithredu'r polisi hwn yn cynnwys:

- Sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau digonol ar waith i reoli'r risgiau sy'n deillio o wasanaethu systemau gwresogi;
- Sicrhau bod digon o wybodaeth, cyfarwyddyd ar gael, a hyfforddiant os oes angen;
- Monitro perfformiad staff a chontractwyr;
- Sicrhau bod archwiliadau priodol yn cael eu gwneud i asesu cyflwr gosodiadau a chyfarpar gwresogi;
- Cynnal cofnodion gwasanaethu eiddo ac unrhyw ardystiad perthnasol;

- Diweddaru ein hunain am wybodaeth gyfredol am ofynion deddfwriaethol ac arfer gorau cyfredol;
- Darparu hyfforddiant rheolaidd a hyfforddiant gloywi i gynnal sgiliau a rhoi cyngor ar gymhwyso'r polisi hwn fesul achos unigol.

**4.5 Rheolwr Darpariaeth Asedau**

Bydd y Rheolwr Darpariaeth Asedau yn gyfrifol am:

- Trefnu a rheoli gwaith gwresogi mawr wedi'i gynllunio ac argyfwng ac amnewid asedau;
- Sicrhau bod gan bawb a benodir i osod, atgyweirio neu brofi gwresogi y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i gyflawni'r gwaith yn ddiogel i'r safon dechnegol ofynnol;
- Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd y person penodedig yn cynnal ymweliad cymeradwyo â'r eiddo ac yn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau i safon uchel ac yn cwrdd â'r holl feini prawf fel y nodwyd yn y rheoliadau cyfredol. Yn ogystal, adolygu a gwirio pob tystysgrif;
- Unwaith y bydd yr holl waith wedi'i lofnodi, bydd y person penodedig yn anfon y wybodaeth at y Tîm Cynllunio a Buddsoddi Asedau i ddiweddaru holl systemau Adra;

**4.6 Rheolwr Cynllunio Asedau a Buddsoddi**

Bydd y Rheolwr Cynllunio Asedau a Buddsoddi yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod yr holl ddata asedau newydd yn cael ei fewnbynnu ym mhob system Adra;
- Sicrhau bod yr asedau'n cael eu diweddaru ar bob system Adra pan fydd unrhyw newidiadau yn digwydd;
- Sicrhau bod gwirio data yn cael ei gynnal yn rheolaidd i sicrhau bod yr holl ddata'n cyfateb ym mhob system Adra;
- Tynnu sylw at unrhyw anghysondebau data i'r Tîm Cydymffurfiaeth a allai effeithio ar yr amserlenni gwasanaethu;

**4.7 Rheolwr Gweithrediadau Mecanyddol a Thrydanol**

Bydd y Rheolwr Gweithrediadau Mecanyddol a Thrydanol yn gyfrifol am:

- Ymgymryd ag atgyweiriadau dydd i ddydd;
- Sicrhau bod aelodaeth o gynlluniau cofrestru achrededig UKAS (Gas Safe, OFTEC, HETAS ati) bob amser yn gyfredol;
- Ymgymryd â gwasanaethu gwresogi a gwiriadau diogelwch o fewn eiddo lle mae deiliad contract yn byw ynddynt ac mewn tai gwag yn ôl y gofyn;

- Sicrhau bod proses ar waith sy’n sicrhau bod pob tystysgrif gwasanaethu yn cael ei adolygu gan y Goruchwyliwr Gwresogi ac yn cael ei arbed ar system gwasanaethu Adra (o fewn Active H);
- Tynnu sylw at unrhyw waith sy'n ofynnol o ganlyniad i wasanaethu a sicrhau bod y gwaith gofynnol yn cael ei godi a’i gwblhau fel sy’n cael ei amlygu yn 3.16 a 3.17;
- Sicrhau bod gan bawb a benodir i wneud gwaith gosod, atgyweirio neu brofi cyfarpar gwresogi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i gyflawni'r gwaith yn ddiogel i'r safon dechnegol ofynnol;
- Sicrhau bod archwiliadau archwilio cyfnodol yn cael eu cynnal ar weithwyr sy'n gwasanaethu systemau gwresogi, yn trwsio, ac yn atgyweirio tai gwag, ac unrhyw is-gontractwyr sy'n gwasanaethu systemau gwresogi, yn trwsio ac yn atgyweirio tai gwag;
- Sicrhau bod yr holl is-gontractwyr a gweithredwyr gwresogi yn cael eu harchwilio ar Iechyd a Diogelwch a chydymffurfiaeth cymhwysedd unigol. Bydd sgoriau perfformiad yn cael eu hadolygu at ddibenion dadansoddi tueddiadau a phan fo angen, gellir gweithredu camau fel hyfforddiant ychwanegol, goruchwylio neu uwchsgilio, a'u holrhain hyd y byddant wedi’u cwblhau;

**4.8 Deiliad contract**

Bydd y Deiliad contract yn gyfrifol am:

- Caniatáu mynediad fel bod modd cynnal gwiriadau diogelwch gwasanaeth gwresogi;
- Caniatáu mynediad a chytuno i holl waith angenrheidiol sy’n ofynnol yn sgil gwasanaethu’r cyfarpar gwresogi a chynnal gwiriadau diogelwch. Ni chaniateir gwrthod gwaith o'r fath;
- Peidio â gwneud unrhyw addasiadau heb gael caniatâd ymlaen llaw fel y nodir yn y Polisi Addasiadau a Gwelliannau Deiliad contract;
- Adrodd am unrhyw faterion gwresogi, difrod neu ddiffygion cyn gynted â phosib;
- Sicrhau bod unrhyw gyfarpar sy’n eiddo i denant gan gynnwys poptai nwy mewn cyflwr diogel drwy drefnu gwasanaethu gwresogi blynyddol a gwiriad diogelwch. Sicrhau y bydd tystysgrifau gwresogi ar gael i'w gweld ar gais perchennog yr adeilad;
- Sicrhau bod unrhyw gyfarpar sy’n berchen i denant gan gynnwys poptai nwy yn cael eu cynnal a’u cadw, a bod unrhyw waith trwsio yn cael ei wneud.
- Deall y bydd unrhyw beiriant gwresogi sy'n eiddo i denant gan gynnwys poptai nwy yn cael ei ynysu os bernir ei fod yn anniogel;
- Sicrhau na ddefnyddir offer nwy cludadwy yn yr eiddo;

**4.9 Prydleswyr**

Bydd prydleswyr unrhyw eiddo neu uned fasnachol yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod caniatâd ar gyfer unrhyw waith gwresogi mawr a wneir yn yr eiddo neu'r uned fasnachol;
- Sicrhau bod gan bawb sydd wedi'u penodi i wneud gwaith gosod, atgyweirio neu brofi gwresogi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i gyflawni'r gwaith yn ddiogel i'r safon dechnegol ofynnol a'u bod yn aelod o gynlluniau cofrestru achrededig UKAS (Gas Safe, ECA, HETAS ayyb);
- Sicrhau bod unrhyw gyfarpar gwresogi gan gynnwys poptai nwy yn eu heiddo neu uned fasnachol mewn cyflwr diogel drwy drefnu gwasanaethu gwresogi blynyddol a gwiriad diogelwch. Sicrhau y bydd tystysgrifau gwresogi ar gael i'w gweld ar gais perchennog yr adeilad;
- Sicrhau bod unrhyw system wresogi sy'n cael ei osod gan gynnwys poptai nwy yn cael eu cynnal a'u cadw, a bod unrhyw waith trwsio yn cael ei wneud;

Mae gan brydleswyr sy'n is-osod eu heiddo gyfrifoldebau i'w deiliad contract o ran diogelwch nwy ac felly, yn dod yn landlord gyda rhwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau bod yr holl waith pibell, cyfarpar a ffliwiau sy'n cael eu darparu i'r deiliad contract yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel; dylid cadw tystysgrifau diogelwch nwy am gyfnod o 2 flynedd.

## 5.0 DIFFINIADAU

LPG - Nwy Petrolewm Hylifedig (a ddefnyddir mewn cyfarpar gwresogi)

OFTEC - sefydliad nid er elw ar gyfer y diwydiannau gwresogi yn y DU ac Iwerddon yn sicrhau bod gan gwsmeriaid systemau gwresogi diogel ac effeithiol

HETAS - sefydliad cenedlaethol yn gweithio er lles diogelwch cwsmeriaid a'r cyhoedd ar ddefnydd diogel, effeithiol, a chyfeillgar i'r amgylchedd o fiomas a thanwydd solet arall

## 6.0 DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG

- CTpol01c - Polisi Gwelliannau ac Addasiadau Cwsmeriaid
- HSp42c - Map Proses Cylch Gwasanaethu Tanwydd Solet 12 mis
- Hsp43c-Map Proses Cylch Gwasanaethu Olew 12 mis
- HSp44c - Map Proses Cylch Gwasanaethu Nwy 12 mis
- RMp86c - Map Proses Boeler Gwresogi yn Torri
- RMp95c- Diffygion ac Atgyfeiriadau Gwasanaethu Systemau Gwresogi
- HSp89c - Map Proses achos posibl o Nwy/Carbon Monocsid yn gollwng
- HSpol02c - Polisi Rheoli Tan

## 7.0 COFNODI ADOLYGIADAU I'R BROSES HON

Bydd y Polisi Diogelwch Gwresogi yn cael ei adolygu bob 2 flynedd neu mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, canllaw rheolaethol, arfer da neu newid i unrhyw bolisïau perthnasol Adra.

| Rhifyn | Dyddiad | **Sylwadau** (Beth sydd wedi'i adolygu?) | Ysgrifennwyd gan | Cymeradwyo ar gyfer cynnwys |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 20/08/2020 | Rhifyn Cyntaf | GR | MR |
| 2 | 05/07/2021 | Adolygiad yn dilyn gweithredu'r Strategaeth Rheoli Asedau newydd ac Active H | GR | SLT |
| 3 | 01/12/2022 | Adolygiad yn dilyn gweithredu'r ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 | FFO | GR |
| 4 | 31/07/2023 | Adolygiad cyffredinol | PEJ | IR |
| | | | | |

## 8.0 CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae Adra yn cydnabod anghenion poblogaeth amrywiol a bydd bob amser yn ymddwyn o fewn cwmpas ei bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei hun. Mae wedi ymrwymo i ddileu anghydraddoldeb a thrin ei weithwyr yn gyfartal ac felly yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw anghydraddoldebau ar gyfer unrhyw aelod staff boed wahaniaeth eu rhyw, lliw, tarddiad ethnig, cred neu anabledd. Bydd angen rhoi ystyriaeth i anghenion unigol a pha mor fregus yw unigolyn fel trefn arferol wrth ystyried anghydraddoldebau posib. Cafodd y polisi hwn ei asesu ac mae'r asesiad cychwynnol wedi dod i'r casgliad nad yw'r polisi hwn yn gymwys ar gyfer asesiad effaith cydraddoldeb llawn.

## 9.0 GDPR

Fel rhan o'i ddatblygiad, mae'r ddogfen hon a'i heffaith ar breifatrwydd data wedi cael ei asesu drwy Sgrinio Diogelu Data a bydd gweithrediadau yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r angen. Bydd unrhyw ddata sydd wedi ei gasglu ar gyfer y polisi hwn yn cael ei drin yn deg ac yn gyfrinachol.

## 10 CWYNION

10.1 Mae Adra yn cydnabod eich hawl i gyflwyno cwyn mewn cysylltiad â'r ymarfer o'r cynllun hwn. Bydd unrhyw gŵyn o'r fath yn cael ei thrin o dan CCpol01 – Polisi Cwynion a Phryderon.

10.2 Bydd Adra yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â'r polisi hwn yn rhesymol ac yn cydymffurfio â pholisi a deddfwriaeth berthnasol

## 11 ADOLYGU PENDERFYNIADAU

11.1 Mae Adra yn cydnabod yr hawl i ofyn am adolygu unrhyw benderfyniad yn ymwneud â'r polisi hwn. Bydd unrhyw adolygiad o'r fath yn cael ei drin o dan CCp04c – Adolygu'r drefn Benderfynu

11.2 Bydd Adra yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â'r polisi hwn yn rhesymol ac yn cydymffurfio â pholisi a deddfwriaeth berthnasol